

## **RHYDDID**

### **Diwedd**

Pan fydd y Fenai'n codi dros eich traed,  
dros eich tre, be' wnewch chi, blantos?  
Eich Cymraeg olaf yn sgrechfeydd  
a dim lle yn y fflatiau tal  
a'r lloerenni'n syrthio fel sêr  
o'r awyr ... Pan fydd  
aroglau'r oson yn ddigon  
i gracio'ch sgriniau, be' wnewch chi?  
Pan fydd y Fenai'n codi dros eich traed,  
dros eich tre, pan fydd  
trawstiau metel nenfydau'n hollti  
fel tân gwyllt a phlastigion yn toddi  
nes ichi flasu'u tarthau,  
a gwymon hallt a phryfaid marw  
yn eich croen a'ch gwallt?

### **Dechrau**

Wrth iddyn nhw'i rhwygo o'r groth mi ruthrodd y byd  
a'r bydysawd a gwawr y Sul drwy ddrws y theatr  
a throi'n ddim. Yn ddim ond anadl a'i bochau'n suddo'n glyd  
i fron ei mam. Doedd yno ddim ffenestr  
ond ym mhobman roedd aeonau fory;  
sibrydson ni'i henw dan stripeits haul y dwyrain:  
ewinedd, gwefus, troed. Gwlith ar ddwy amrant-eisiau-cysgu  
a holl bwysau ysgafn y ddaear yn ei llefain.  
Breuddwydion a llanast; chwerthin crio gwâr.  
Fin nos, fe'm heliwyd adre yn fy nghar.

### **Ffoi**

Fyddwch chi'n poeri, fy mabis gwyn,  
a'ch pennau'n llawn pelydrau,  
gan ddweud mai ni wnaeth hyn?  
Eich llusgo yma  
cyn i faes Caernarfon droi yn llyn?  
Ddaw 'na rywun i'ch achub, fy mabis gwyn,  
a'ch tywys mewn blancedi ffoil  
i'r man lle bydd awel ar fryn? Lle cewch chi  
sgrolio drwy hen luniau ar ddyfeisiau  
a cholli deigr yn am eich mam a fi,  
ond heb am un munudyn  
ddweud mai ni wnaeth hyn?

## Swatio

Mae hi'n hepian yn fy mreichiau a dwi'n sownd  
ar sofffa'r pnawn. Stwff ar y gweill, cyfres i'w gwyllo,  
ond feiddia' i ddim gwneud smicyn na throi rownd  
i gyrraedd y remôt, rhag imi'i styrbio:  
tair oed a brithni'r tridegau yma'n un;  
tad a merch a'u clustogau, fel eu cytserau, yn gytûn.  
Wneith rhywun dynnu ein llun?  
Mae'i hanadl fel awel Mai a'i gwallt yn cosi 'moch,  
a'r postman yn y drws yn plagio'r gloch.

## Gwifrau

Os bydd 'na sgwrsfot, pwt,  
un noson yn dy gadw  
ar ddi-hun, gan godi hiraeth  
am fod yn fy nghesail; os bydd 'na  
lifeiriant o sylwadau a diffyg *likes*  
yn dy yrru i ddyfnder  
dy injan chwilio,  
heb i'r ateb ddod gan neb  
na dim; os byddan nhw'n  
dy fygwth dros fysellfyrdau  
a chdithau'n sweipio'r sgrin  
'roddais iti'n blentyn, pwt,  
estynna, rhwyga'r cêbl o'r wal.  
Tro rhag y gwefru araf  
sy'n sugno'r egni o'th galon.

## Waliau

Sadwrn arall llawn aroglau clwt fy mab blwydd oed  
a'r lolfa'n cau o'n cwmpas. Mae 'na goed  
drwy'r ffenest sydd 'di'i weld o i gyd o'r blaen,  
yn rowlio llygaid wrth imi edliw straen  
y gwaith sydd heb ei wneud a rhuthr y rhod.  
Y sawl marwolaeth agos sydd heb fod.  
Mae 'na hogiau yn y pýb, rhai yn y gêm,  
a dyma hwn a'i duchan yn gollwng stêm,  
yn chwalu'r blocs heb wybod lle i droi,  
yn ratlo'r drôr wrth drïo'i dat-gloi  
a'r bwlyn ymhell o'i gyrraedd ar y drws ...  
Dwi'n gwybod sut ti'n teimlo, 'mabi tlws.

## Suddo

Pan ddiflannith Ynys Môn,  
wnewch chi brotestio, 'nghywion?  
Wnewch chi hel baneri  
a threfnu deisebau mor groch nes bod  
eich rhith-bensiliau'n toddi? Ym Menllech

byddan nhw'n chwerthin ac yn llofnodi  
gweithredoedd eich tai, mae'n siŵr,  
wedi dwyn eich dŵr ac ar fin  
codi tollbyrth dros y Fenai.  
A be' wnewch chi, 'nghywion,  
ond sbio ar Fôn yn mynd o dan y don –  
yn union fel y gwnaethon ni?

### **Sblasio**

Mae'r syniad yn hurt, ond rhwng y swigod syn  
a'r piffian sgrechian a'r siampŵ a'r cwac-cwacs,  
rhwng dyheu am ffoi i'r gegin a dal yn dynn  
yn yr ennyd, rhwng y growting a'r cracs  
yn y teils, mae holl hunllefau fy nghalon.  
Dyna'r llestri i'w llau, ebyst difrifol i'w hateb,  
ac mae'r ddau'n dallt yn iawn reolau'r baddon.  
Ond ym mhob un bybl mae winc trychineb.  
Rhag iddyn nhw foddi mewn dwy fodfedd ddofn  
dwi'n sefyll yno'n gwenu – jest rhag ofn.

### **Breuddwyd**

Maen nhw'n sôn am hitio'r miliwn  
nes bydd mydrau'r Mabinogi  
yn dew ar dafodau  
ac odlau pencerddi  
yn cyniwair ar bob cornel stryd.  
Ond be' os byddwch chi, fy siwgr lwmps,  
y naill yn Bedford a'r llall yng Nghaint,  
yn magu'ch plant  
ar synau CBeebies eich oes,  
am mai dyna'ch braint?  
Efo 'ngherdyn gostyngiad a gwên,  
mi alwaf ar y trên  
a throi clust fyddar ar y darfod.  
Ond dyna ddau deulu'n llai  
yn barod.

### **Hunlle'**

Pan aeth o'n ei gôt drwy ddrws ei feithrinfa  
a'r sylweddoliad wrth groesi'r fynedfa  
yn hurt a hallt ar ei fochau llwyd,  
a ni'n cau'r glwyd ar ein holau'n ara';  
pan aeth o a'i facpac i fraich dieithryn  
a'i ddwylo bach o'n dal i estyn  
amdanon ni'n dau; pan oedd i'r pellhau  
y dallt dieiriau na châi o ddilyn,  
yn drech na'n gwarth roedd wyth awr mewn swyddfa.

A chan danio'r car, dyma droi ein cefna'  
ar lygaid-hwyl-fawr ein hogyn tlws  
a'i drwyn yng ngwydr drws ei feithrinfa.

### Saethu

Os daw'r consgriptwyr ar dy ôl, fy mab,  
wrth i'r dronau  
sganio dros Segontiw, wrth i ti  
chwilio am solas yn y cof am dy fam  
a'r rotorau'n wylofain  
dros Ben Twil;  
os dôn nhw a dy winshio i gefn hofrennydd  
cyn dy sodro mewn arfwisg  
a helmed a dy hel  
i faracs llawn neon coch  
lle mae gasmasgs uwch y gwely,  
lle maen nhw, fy mab,  
yn cyfri'r oriau  
â mesuryddion Geiger; os daw dydd  
gyrru dartiau i dy gnawd  
a hurtni hanes  
yn bwledu yn ei ôl fel ym mhob oes,  
maddau i mi, fy mab,  
am ddychmygu'r pnawniau haul  
y bore hwnnw  
pan ddest i'r byd.

### Siglo

Lladdwr amser da ydi'r siglen grawciog,  
a dyma bnawn o'u hanfon yn ôl a blaen  
ar drywydd sydd mor syth o ansefydlog  
a dim byd i'w cynnal heblaw dwy dsiaen.  
Eu mam a fi'n cael munud ar ein ffonau  
rhwng ambell wthiad a thaflu gwenau del,  
yn pocedu chwarddiadau rhwng pendiliau  
cyn anwybyddu'r strancs er mwyn eu hel  
mewn pram drwy'r giât. A'r criu mor gas  
â'u hymgais i afael yn yr awyr las.

### Castell

Os chi fydd cenedlaeth y beichio,  
y criw i deimlo'r cread  
yn cracio dan eich traed  
wrth i'r seiren  
eich sobri ac oeri'r gwaed;  
os chi fydd y rhai i sgramblo  
am eich pecynnau panig  
cyn denig i dyllau concrid  
lle nad oes cof, dim ond drychiolaethau

effro fory, lle nad oes cysgu  
yn awr yr aros;  
os chi fydd yn clywed  
castell Edward yn dymchwel i'r cei  
a'r ochneidio a'r wylo  
yn eich cadw ar ddi-hun ...  
be' sydd i'w wneud ond canu  
i chi fy si-hei-lwli ola' un?

### **Palas**

Mi glywson nhw'r ddolef ym Mangor mae'n siŵr,  
ddeng milltir o episentir y drychineb.  
Roedd palas tylwyth teg heb frig ei dŵr –  
un pishyn ar goll – a'r siom yn sigo'i hwyneb.  
Mi ddown ni o hyd iddo, mi addewais i,  
a'r daeargryn yn dirgrynu ar ei hamrant;  
mi ffeindiwn ni fricsen dy greadigaeth di,  
y bwllch sydd gan bawb yn jig-so'i ramant.  
Cyn i glec ei llaw ddistrywio'r lledrith  
a'r darnau a'r dagrau dros y bwrdd, blith draphlith.

### **Gwenwyn**

Oes, mae gen i ofn chwistrelli.  
Mae gen i ofn y dewch chi  
adra cyn hir  
â llygaid rhy glir  
a gwythiennau gwyrdd.  
Mae gen i ofn,  
mor finiog â nodwydd,  
ddyfaru  
i'ch mam ddeffro 'nghalon  
drwy roi ynddi bigiad  
un noson well, bell yn ôl.

### **Ewyn**

Ac er ein bod ni'n rhwym i YouTube am y tro,  
a'n llygaid ni'n sgwâr a'n bysedd sgrolio'n gaeth,  
dwi'n addo yr awn ni eto, blant, am dro  
o sofffa ein picelau i'r ddinas o draeth  
ac eistedd ar fryngaer ein tadau a dal yn dynn.  
Bydd hyn cyn awr fy strôc neu'r tiwmor ar fy iau.  
Ac yng ngolau tynnu sanau a'r tywod gwyn,  
mi wasgaf fraich eich mam a'ch sgwyddau chi'ch dau.  
Mi freuddwydiwn ni am Ddwynwen, am liwiau fory draw,  
a chyn i niwl Iwerydd oeri'r gweld, mi dynnwn lun  
ein gorwel yn ein pennau. Mi godwn law  
ar yr Eifl, a chofio dal i wenu wrth fynd yn hŷn.  
Os ffeindia' i owns o fynedd ac awr rydd,  
dwi'n addo y gwnawn ni hyn i gyd ryw ddydd.

## **Gwersylla**

Os felly y bydd hi, fy anwyliaid:  
yn bebyll ar gomin,  
yn gleciadau ar orwel,  
yn fygdarth sy'n duo pob dydd  
a dim ond pilsenni maeth  
i'ch cadw'n gall;  
os collwch chi'ch cyflenwad  
cudd o fatris, yn eich cryndod,  
tyrchwch i'ch sachau, fy anwyliaid.  
Cadwch eich cotiau am eich cefnau;  
ewch â fy mil cerddi mân,  
stwffiwch nhw o dan eich priciau  
i gynnu'ch tân.

## **Hedfan**

Fis Ebrill, daw cwilt y coed i'n cuddio rhag y byd,  
a'r Fenai ar drai a'r dre yn ei hegin flodau.  
Mae'r llwybr ar y goriwaered am ryw hyd,  
a beics Siôn Corn o'r diwedd yn cael munudau  
yn yr haul. Ac yn heli glas y glannau,  
maen nhw'n synhwyro awr eu hanterth, y sbri  
o rowlio'n rhydd i'r hafau. Ond daw clymau  
eto i rwystro 'nghoesau, a thro'r lli'n  
dweud nad oes mo'u dal. Maen nhw'n hel gwib ar hyd eu lôn,  
a'u chwerthin yn diasbedain i Sir Fôn.

## **Gregor**